**Beirniadaeth Cystadleuaeth 354**

**Rhyddiaith Bl.7 – Gêm**

**Beirniad: Casia Wiliam**

1af - Lleucu Llwyd: Mae hon yn stori fer, ond ew mae hi'n dda! Mae'n bachu sylw'r darllennydd o'r cychwyn gyntaf. Mae amrywiaeth da mewn hyd brawddegau, ac mae'r awdur yma yn gwybod sut i greu tensiwn - ges i groen gwydd wrth ei darllen! Mae'r syniad yn un gwreiddiol hefyd, doedd neb arall wedi mynd ar yr un trywydd. Ysgrifennu graenus, a disgrifiadau gwych. Arbennig.

2il - Mrs Wishi Washi/Chwedl: Dyma ysgrifennu gwych a gwreiddiol. Stori fyw, lawn cymeriadau creadadwy a deialog bachog tu hwnt. Rwyt ti'n dda iawn am gynnwys manylder sy'n helpu'r darllenydd greu darlun yn ei ben. Da cael stori fywiog hefyd gyda digon yn digwydd. Da iawn ti!

3ydd - Gwibio / Seren : Mae hon yn andros o stori dda. Mae yma blot diddorol a strwythur clir i'r stori. Mae un digwyddiad yn arwain at y llall ac mae'r plot yn datblygu'n naturiol. Mae'r cymeriadau yn greadadwy a'r deialog yn dda iawn. Mae'r syniad wedi ei weithio'n ofalus o'r dechrau i'r diwedd. Da iawn ti!

---

Daeth llawer iawn o straeon gwych i law. Er hynny, byddwn yn annog pawb i edrych dros eu gwaith cyn ei gyflwyno i gystadleuaeth er mwyn trio dal unrhyw gamgymeriadau sillafu neu wallau iaith. Da iawn i bob un ohonoch am gystadlu, daliwch ati i sgwennu!

Tomos: Dyma stori sy'n llawn cymhariaethau gwych. Mae Tomos wedi llwyddo i greu cyffro gêm rygbi yn dda iawn hefyd. Defnydd da o ddeialog. Dal ati Tomos.

Y Daffodil / Blodwen: Dyma syniad da am stori, helfa drysor ddirgel yn Llangrannog! Stori dda gyda digon o ddeialog i symud y stori ymlaen. Dal ati Y Daffodil / Blodwen!

Blodyn: Da iawn, dyma ddarn graenus, gyda iaith dda a disgrifiadau gwreiddiol. Gwaith gwych yn amrywio hyd brawddegau hefyd. Rwyt ti wedi dod at y testun mewn ffordd annisgwyl, sydd yn dda, ond efallai y byddai wedi bod yn dda cael mwy yn digwydd yn y stori.

Anni Gwyn / Clydach: Dyma sgwennu naturiol a iaith gyfoethog. Digon o ddeialog hefyd. Byddai wedi bod yn dda cael mwy o'r hanes pan ddaeth y gêm yn fyw! Ond da iawn ti.

Ddyfad Irah: Dyma stori fywiog iawn sydd yn siŵr o fod at ddant unrhyw un sy'n mwynhau chwarae gwyddbwyll! Digon o densiwn a deialog fachog, da iawn ti.

Gwen Davies: Dyma stori annwyl am ddilyn breuddwyd, credu yn dy hun a bod yn benderfynol. Mae strwythur da i'r stori hefyd, gyda dechrau, canol a diwedd clir. Da iawn ti!

Mari Jones / Enfys: Stori dda am gredu yn dy hun a bod yn garedig gyda ti dy hun. Roeddet ti'n creu tensiwn yn dda, ac mae'r darn yn llawn cymhariaethau gwreiddiol, gwych!

Mark: Dyma stori gyd digon o fynd ac antur ynddi. Mae'r cymeriadau yn ddiddorol ac mae datblygiad da yn y stori. Dal ati i sgwennu!

Mr Llyn: Dwi'n meddwl ein bod ni wedi darganfod un o sylwebwyr pêl-droed y dyfodol! Rwyt ti'n llwyddo i gynyddu'r tensiwn yn effeithiol, a chyfleu cynnwrf y gêm. Da iawn ti – dal ati.

Sali Mali / Beca Jones: Dyma stori fach dda, y syniadau yn datblygu'n naturiol. Deialog da hefyd, ac uchafbwynt clir i'r stori. Da iawn ti.

Sali Mali: Stori dda lawn dychymyg! Dwi'n hoffi'r clymu rhwng y dechrau a'r diwedd efo Cleo yn edrych ar y sêr. Mae'r stori yn ddifyr ac mae'n anodd rhagweld be sy'n digwydd nesaf. Da iawn! Roeddet ti'n agos at y brig.

Yma o Hyd: Dyma stori gyffrous ble mae sawl gêm wahanol yn digwydd. Mae gan yr awdur yma ddigon o ddychymyg yn sicr, ac mae amrywiaeth dda yma o naratif, deialog a chwestiynau rhethregol hefyd. Da iawn ti, dal ati gyda'r sgwennu.